

2021 Rhif (Cy.)

2021 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A5
(Cylchfan Ffordd Caergybi,
Bangor, Gwynedd i Gylchfan
Ffordd Mona, Porthaethwy, Ynys
Môn) (Gwahardd Cerbydau,
Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro)
2021

The A5 Trunk Road (Holyhead
Road Roundabout, Bangor,
Gwynedd to Mona Road
Roundabout, Menai Bridge,
Anglesey) (Temporary Prohibition
of Vehicles, Cyclists &
Pedestrians) Order 2021

Gwnaed 1 Medi 2021
Yn dod i rym 5 Medi 2021

Made 1 September 2021
Coming into force 5 September 2021

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A5, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd bod digwyddiad Hanner Marathon a Ras 10K Ynys Môn yn cael ei gynnal ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A5 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of the Anglesey Half Marathon and 10K Race event being held on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 16A o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 16A of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), as amended by the Road Traffic Regulation (Special Events) Act 1994, make this Order.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Cylchfan Ffordd Caergybi, Bangor, Gwynedd i Gylchfan Ffordd Mona, Porthaethwy, Ynys Môn) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2021 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Medi 2021.

Title and commencement

1. The title of this Order is the A5 Trunk Road (Holyhead Road Roundabout, Bangor, Gwynedd to Mona Road Roundabout, Menai Bridge, Anglesey) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2021 and this Order comes into force on 5 September 2021.

(1) 1984 p. 27. Mewnosodwyd adran 16A gan adran 1(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd (Digwyddiadau Arbennig) 1994. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27. Section 16A was inserted by the Road Traffic Regulation (Special Events) Act 1994, Section 1(1). By virtue of S.I. 1999/672 and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw:

- (i) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion yr heddlu, y gwasanaeth tân neu'r gwasanaeth ambiwlans;
- (ii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â gwaith ar y ffordd neu oleuadau neu arwyddion traffig neu waith brys i unrhyw garthffos neu i unrhyw brif bibell neu gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu yn y darn o'r ffordd o dan sylw, neu mewn unrhyw dir cyfagos;
- (iii) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan un o swyddogion awdurdodedig y digwyddiad i gefnogi'r digwyddiad ac am resymau diogelwch;

ystyr “cyfnod y digwyddiad” (“*event period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 06:00 o'r gloch ar 5 Medi 2021 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A5 Llundain i Gaerdybi sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Ffordd Caerdybi (Tafarn yr Antelope), Bangor, Gwynedd hyd at ei chyffordd â Chylchfan Ffordd Mona (Garej Shell), Porthaethwy, Ynys Môn.

Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o'r gefnffordd.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, reidio unrhyw feic pedal ar y darn o'r gefnffordd.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y digwyddiad, gerdded ar y darn o'r gefnffordd.

Cymhwys

6. Nid yw'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Interpretation

2. In this Order—

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means:

- (i) any vehicle being used for police, fire or ambulance services purposes;
- (ii) any vehicle being used in connection with works to the road or lighting or traffic signs or emergency works to any sewer or to any main or apparatus for the supply of gas, water or electricity, or telecommunications in, or in any land adjacent to, a length of road concerned;
- (iii) any vehicle used by an authorised event official in support of and for reasons of the safety of the event;

“event period” (“*cyfnod y digwyddiad*”) means that period commencing at 06:00 hours on 5 September 2021 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A5 London to Holyhead trunk road that extends from its junction with Holyhead Road Roundabout (Antelope Inn), Bangor, Gwynedd to its junction with Mona Road Roundabout (Shell Garage), Menai Bridge, Anglesey.

Prohibition

3. No person may, during the event period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road.

4. No person may, during the event period, ride any pedal cycle on the length of the trunk road.

5. No pedestrian may, during the event period, proceed on the length of the trunk road.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am un diwrnod ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

1 Medi 2021

Nicci Hunter
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is one day.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

1 September 2021

Nicci Hunter
Business Team Leader
Welsh Government